

Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Maes Llafur Cytûn
ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Cwricwlwm i Gymru
ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg



CYFLAWNI **TEGWCH** A RHAGORIAETH
MEWN **ADDYSG** A **GWELL LLES** I BAWB
EQUITY AND **EXCELLENCE** IN **EDUCATION**
AND **ENHANCED WELLBEING** FOR ALL

Rhagair

Wrth i ni ddechrau trosglwyddo i'r Cwricwlwm newydd i Gymru rydyn ni'n myfyrio ar yr hyn rydyn ni'n ei addysgu, sut rydyn ni'n addysgu a pham rydyn ni'n addysgu rhai pynciau. Mae'n her ac yn destun cyffro ein bod ni bellach yn gyfrifol am danio dychymyg ac ysbrydoli ein disgyblion i ehangu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u doethineb. Efallai mai'r mwyaf heriol a chyffrous o'r rhain yw'r maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) sydd bellach yn rhan o'r cwricwlwm ac sy'n hanfodol ar gyfer hyrwyddo unigolyn sy'n barod ar gyfer ei fywyd yn ein byd amrywiol ac amlblyfol.

Rydyn ni'n cofio bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob disgybl rhwng 3 ac 16 oed. Er ei fod yn rhan o Faes y Dyniaethau, gan gwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; ac astudiaethau busnes, mae'r disgyblaethau yma'n rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ac mae ganddyn nhw'u corff arwahanol eu hunain o wybodaeth a sgiliau. Mae ysgolion a lleoliadau yn Rhondda Cynon Taf yn achub ar gyfleoedd i ddatblygu CGM cyfoethog, cyffrous ac arloesol o fewn cwricwlwm dilys a phwrpasol wedi'i gynllunio gan yr ysgol. Bydd pob ysgol a lleoliad yn 'ystyried' eu Maes Llafur Cytûn lleol ar gyfer CGM wrth gynllunio'u cwricwlwm a'i roi ar waith.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gyfle i wella pwysigrwydd CGM o ran ei rôl a'i chyflwyniad i helpu i annog datblygiad ysbrydol disgyblion. Cydnabyddir y gall 'ysbrydolrwydd' fod yn grefyddol neu'n anghrefyddol ac mae'n gyfrifoldeb ar draws y cwricwlwm cyfan, ar gyfer y gymuned ddysgu gyfan ym mhob ysgol a lleoliad, wrth gydnabod yr arwyddocâd penodol sydd gan archwilio 'ysbrydolrwydd' o fewn CGM yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r ysbrydolrwydd yma'n gwneud cyfraniad mawr at les, ac mae modd iddo ddarparu'r cyfrwng ar gyfer gwydnwch i helpu disgyblion trwy'r nifer o brofiadau y byddan nhw'n dod ar eu traws yn ystod eu bywydau.

Hoffwn achub ar y cyfle yma i ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o greu'r ddogfen yma ac i'r rheini a fydd wedyn yn rhoi cymorth. Hoffwn hefyd ddiolch i'r gweithlu Addysg yn RhCT sydd wedi gweithio'n galed iawn wrth baratoi'r cwricwlwm newydd yma ac a fydd yn parhau i ddarparu'r lefel uchaf o brofiad addysgu a dysgu wrth i ni fynd ati i ymdrechu i gyflawni'n datganiad cenhadaeth, sef 'Rhagoriaeth mewn Addysg a Gwell Lles i Bawb'.

Gaynor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Llythyr oddi wrth Gadeirydd Cynhadledd Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf

Yn ôl y gyfraith, pan fo angen Maes Llafur Cytûn newydd, caiff ei ysgrifennu gan Gynhadledd Maes Llafur Cytûn (CMLIC). Mae hwn yn cynnwys aelodau o'r Cyngor Bwrdeistref sy'n cynrychioli'r gymuned gyfan, athrawon gweithredol sy'n cynrychioli gweithwyr addysg proffesiynol, ac arweinwyr lleol o wahanol gredoau, yn grefyddol ac anghrefyddol, sy'n cynrychioli eu ffydd. A minnau'n Gadeirydd CMLIC Rhondda Cynon Taf (RhCT) rwyf wedi gwerthfawrogi sut maen nhw i gyd wedi cydweithio i lunio'r Maes Llafur Cytûn yma ac mae'n bleser gen i'w gyflwyno i chi ar eu rhan.

Penderfynodd Cynulliad Cymru ddod â 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' (CGM) ynghyd. Mae wedi ein galluogi i greu maes llafur cyffrous, hollol wahanol. Mae'n cydnabod bod gwerthoedd a moeseg yn llifo o'n credoau, boed yn grefyddol neu'n anghrefyddol, gan alluogi athrawon, os ydyn nhw'n dymuno, i archwilio sut mae'r tri yn effeithio ar ei gilydd ac yn llywio ein bywydau.

Rwy'n falch bod CGM wedi'i osod ochr yn ochr â Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol yn rhan o'r Dyniaethau. Dydy credoau ddim yn bodoli mewn gwagle ond yn y lleoliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan lywio ein cymdeithas a sut rydyn ni'n cynnal busnes. Mae credoau a chymdeithasau wedi llywio ac wedi'u llywio gan y gorffennol ac maen nhw'n berthnasol i'n presennol a'n dyfodol.

Mae Cynulliad Cymru a'r CMLIC wedi ymrwymo i gyfrifolaeth. Roedden nhw'n ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i ni lunio maes llafur gan ystyried eu canllawiau, a'i gwneud yn ofynnol i ysgolion fframio'u cyrsiau gan ystyried y maes llafur. Rydyn ni o'r farn ein bod ni wedi creu maes llafur sy'n rhoi hyblygrwydd i ysgolion o bob math i greu gwersi ysgogol, heriol a chyfoethog sy'n briodol i holl ystod eu disgyblion.

Yn ogystal â chadeirio'r CMLIC rydw i hefyd yn Gadeirydd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a fydd bellach yn cael ei alw'n Gyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS).

Fel cyn-bennaeth addysg grefyddol uwchradd, clericwr wedi ymddeol a chyn-gadeirydd y llywodraethwyr mewn ysgol gynradd, rydw i wedi cyffroi gan botensial y maes llafur yma ar gyfer ein disgyblion, ond rwy'n effro i faint yr her sy'n wynebu ein hathrawon wrth iddyn nhw ei roi ar waith.

Mae'r CYS wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei allu i gefnogi ein hysgolion i gyflwyno'r maes llafur newydd yma. Bydd y CYS yn fforwm lle bydd cynrychiolwyr yn cynnwys athrawon, cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol a grwpiau ffydd ac Ymgynghorydd CYS a CGM o Gonsortiw Canolbarth y De yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i ymgodymu'n greadigol â'r heriau hyn i geisio sicrhau bod ein hysgolion yn cael y cymorth gorau posibl i lunio addysg o'r ansawdd uchaf i'n disgyblion ar draws y fwrdeistref.

Rydyn ni wedi derbyn cynnig gan Gyngor RhCT i gael adran ar y wefan i rannu dolenni i adnoddau, cyrsiau a gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i athrawon. Gobeithiwn y bydd athrawon ac arweinwyr ffydd yn anfon awgrymiadau aton ni. Bydd popeth yn cael ei wirio gan ein Hymgyngorydd CYS o Gonsortiw Canolbarth y De er mwyn sicrhau ei fod o ansawdd ac yn briodol.

Os ydych chi am roi'r Maes Llafur yma ar waith a'ch bod o'r farn bod rhywbeth mae modd i ni ei wneud i'ch helpu chi, neu os hoffech i ni gynnal un o'n cyfarfodydd yn eich ysgol er mwyn i ni gael gweld eich gwaith rhagorol neu'r heriau rydych chi'n eu hwynebu o fewn CGM, rhowch wybod i ni.

Rydyn ni'n dymuno pob llwyddiant i bawb sy'n ymwneud ag addysg yn RhCT wrth iddyn nhw geisio parhau i greu rhagoriaeth yn ein holl ysgolion.

Y Parchedig David Brownutt BA
Cadeirydd CMLIC a CYSAG

Tabl Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
Rhagair	2
Llythyr oddi wrth Gadeirydd Cynhadledd Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf	3
Tabl Cynnwys	5
Gweledigaeth Rhondda Cynon Taf ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg	6
Gwerthoedd y mae Cynhadledd Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo iddyn nhw	7
Cynulleidfa	7
Trosolwg	7
Gweithredu	8
Ymholiadau pellach am y ddogfen yma	8
Dogfennau Perthnasol	9
Maes Llafur Cytûn ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg Rhondda Cynon Taf	9
Y gofyniad cyfreithiol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg	9
Cynllunio eich Cwricwlwm CGM	12
Pwyntiau a Awgrymir i'w Hystyried ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Rhondda Cynon Taf	13
Yr 'Hawl i Dynnu'n Ôl' o fewn y Cwricwlwm i Gymru	14
Deunyddiau Ategol Ychwanegol ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Rhondda Cynon Taf	15
Manylion Cyswllt	15

Mae'r holl wybodaeth sydd wedi'i amlygu'n 'llwyd' wedi'i gymryd yn uniongyrchol o wefan Hwb. Mae dolenni wedi'u cynnwys.

Gweledigaeth Rhondda Cynon Taf ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae gan ysgolion a lleoliadau Rhondda Cynon Taf y cyfle newydd yma i ymgysylltu â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) cyfoethog i bob disgybl. Mae CGM, heb os, yn rhoi gwerth unigryw a phwysig i addysg ein disgyblion. Cyfle i annog pob disgybl i adnabod a deall eu cymunedau a'r byd o'u cwmpas. i ddod yn bobl goddefgar, parchus sy'n ysgogi newid a chyfiawnder cymdeithasol.

Gweledigaeth:

Pob plentyn a pherson ifanc yn ardal Rhondda Cynon Taf i gael profiad o addysg CGM o ansawdd uchel a datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau sy'n eu galluogi nhw i ddod yn bersonol llwyddiannus gyda'r sgiliau ar gyfer dysgu gydol oes ac yn ddinasyddion sy'n ymgysylltu'n fyd-eang. Y [pedwar diben](#) yw'r weledigaeth a rennir a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yn Neddf Cwricwlwm i Gymru 2021.

Wrth gyflawni'r rhain, rydyn ni'n gosod disgwyliadau uchel i bawb, yn hyrwyddo lles unigolion, yn mynd i'r afael ag anwybodaeth a chamwybodaeth, ac yn annog ymgysylltiad beirniadol a dinesig. Mae cwricwlwm CGM yr ysgol yn cynnwys popeth mae disgyblion yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Nid dim ond yr hyn rydyn ni'n ei addysgu o ran CGM - mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam ydyn ni'n ei addysgu.

Dyma'r Gwerthoedd y mae Cynhadledd Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo iddyn nhw:

- Datblygu disgyblion hapus, gwybodus a gwydn, trwy ganolbwyntio ar gyflawniad academaidd CGM, lles personol a chynnydd y tu hwnt i'r ysgol.
- Rhoi cyfleoedd cyfartal, hyrwyddo a dathlu llwyddiant a chyfleoedd bywyd pob plentyn a pherson ifanc, trwy'r addysgu CGM i bob disgybl.
- Parchu hawliau pob plentyn a pherson ifanc a gwranddo arnyn nhw a'u cynnwys yn eu cwricwlwm CGM.
- Codi dyheadau pob plentyn a pherson ifanc a'n disgwyliadau o'r hyn mae modd iddyn nhw ei gyflawni, waeth beth fo'u cefndir.
- Cofleidio'r amrywiaeth sydd yn y gymdogaeth, gan ymarfer goddefgarwch a pharch.
- Parchu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer plant a phobl ifainc heddiw ac ar gyfer cenedlaethau i ddod.
- Rhannu gwybodaeth, ymarfer a dysgu yn agored ac ar y cyd.

Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Cynulleidfa

Mae Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf ar Gefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) wedi'i ysgrifennu i fod yn hygyrch i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm CGM. Mae'r gynulleidfa arfaethedig yn cynnwys:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
- yr athro sydd â gofal am uned cyfeirio disgyblion
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- person sy'n darparu addysgu a dysgu i blentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56)
- awdurdod lleol yng Nghymru

Yn ogystal, mae modd i'r Maes Llafur Cytûn fod yn ddefnyddiol hefyd i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau anghrefyddol, rhieni a gwarcheidwaid a chyrrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn CGM.

Trosolwg

MAES LLAFUR Cytûn

“Gan mai pwnc y penderfynir arno'n lleol yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, y maes llafur Cytûn sy'n pennu'r hyn y dylid ei addysgu yn y pwnc ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n addysgu'r maes llafur Cytûn.” [Canllawiau CGM](#)

Mae'r ddogfen yma'n nodi'r manylion ynghylch addysgu a dysgu yn yr elfen fandadol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn unol â Chwricwlwm Cymru, ar gyfer holl ysgolion a lleoliadau Rhondda Cynon Taf a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae'r ddogfen yma wedi'i mabwysiadu fel Maes Llafur Cytûn ar CGM yn Rhondda Cynon Taf, yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Mae Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf wedi mabwysiadu'r ddogfen yma fel Maes Llafur Cytûn ar CGM ym mis Gorffennaf 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod Lleol gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn (CMLIC) ar y 30 Mehefin 2022.

“Ar ôl i faes llafur Cytûn gael ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur Cytûn, gan gynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur Cytûn eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.” [Canllawiau CGM](#)

Mae gofyn i bob ysgol a gynhelir yn Rhondda Cynon Taf **'ystyried'** y Maes Llafur Cytûn ar CGM wrth gynllunio eu cwricwlwm, yn ogystal â meysydd mandadol y Cwricwlwm i Gymru. Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i adolygu'r Maes Llafur Cytûn bob pum mlynedd.

Mae Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf yn cydnabod bod ymagwedd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar yr egwyddor o **gyfrifolaeth** ac, o'r herwydd, mae Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf yn cydnabod ac yn adlewyrchu ymreolaeth pob ysgol a lleoliad wrth wireddu ei chwricwlwm ei hun.

Gweithredu

Bydd y Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf yma'n weithredol o fis **Medi 2022**, ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn perthynas â phob disgybl, hyd at a chan gynnwys blwyddyn 6. O ran disgyblion blwyddyn 7, bydd gan ysgolion y rhanbarth hyblygrwydd o ran p'un ai i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, neu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ym mis Medi 2023. Yn ystod cyfnod cyflwyno'r cwricwlwm, wrth i ysgol uwchradd neu leoliad 'fabwysiadu' Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn penodol, bydd y Maes Llafur Cytûn yma ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn disodli'r Maes Llafur Cytûn cyfredol/hen ar gyfer Rhondda Cynon Taf. O fis Medi 2023, bydd y Maes Llafur Cytûn yn berthnasol ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 gan y bydd pob ysgol a lleoliad wedi rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ar gyfer y disgyblion hynny. Wedi hynny, bydd y broses o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru fesul cam yn parhau, a bydd y Maes Llafur Cytûn yma ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn disodli'r llall:

- disgyblion blwyddyn 9 ym mis Medi 2024
- disgyblion blwyddyn 10 ym mis Medi 2025
- disgyblion blwyddyn 11 ym mis Medi 2026

Mae rhagor o wybodaeth i ysgolion a lleoliadau am y broses ar gyfer mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â disgyblion blwyddyn 7 wedi'i darparu yn ['Y daith i weithredu'r cwricwlwm'](#).

Dylid cyfeirio ymholiadau pellach am y ddogfen yma at:

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CAS) Rhondda Cynon Taf ar Grefydd,
Gwerthoedd a Moeseg

Eirwen.Davies@rctcbc.gov.uk

Neu drwy ymweld â gwefan [Cyngor Rhondda Cynon Taf](#)

Dogfennau perthnasol

- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Ar gyfer ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, mae ganddyn nhw ofynion CGM ychwanegol i'w hystyried gan yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg Gatholig:

<https://www.churchinwales.org.uk/cy/about-us/education/>

<https://www.catholiceducation.org.uk/npqh/item/1000053-wales>

Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf yn croesawu bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ofyniad **statudol** o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n **fandadol** i bob disgybl rhwng 3 ac 16 oed.

Mandadol

“Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac mae'n ofyniad gorfodol yn achos pob disgybl rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth; hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd.” [Canllawiau CGM](#)

Y gofyniad cyfreithiol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae'n hanfodol bod Penaethiaid, uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn deall gofynion cyfreithiol CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Mae modd dod o hyd i'r rhain yn [Adran CGM y Crynodeb o ddeddfwriaeth](#).

Mae modd cael golwg ar Ganllawiau Deddfwriaeth CGM ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#crefydd,-gwerthoedd-a-moeseg>

Mae'r canllawiau ar CGM sy'n rhan o Faes y Dyniaethau ar Hwb yn ganllawiau statudol:

“Mae'r canllawiau ar Grefydd, gwerthoedd a moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o'r Ddeddf gyda'r bwriad o helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.” [Canllawiau CGM](#)

Mae Maes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf yn dilyn y [Canllawiau Statudol](#) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg statudol ar Hwb ac mae hyn yn sail i'r Maes Llafur Cytûn yma ar gyfer Rhondda Cynon Taf . Dylid darllen y Canllawiau ar y cyd â'r ddogfen yma.

Mae canllawiau statudol ar CGM ar gael drwy wefan Hwb Llywodraeth Cymru:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#canllawiau-ar-grefydd,-gwerthoedd-a-moeseg>

Mae'r canllawiau statudol ar CGM yn sail i Faes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf ar CGM ac mae'n cynnwys gwybodaeth hanfodol i ysgolion wrth gynllunio eu cwricwlwm ar lefel leol, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- [CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru](#)
- [Datblygiad ysbrydol](#)
- [Themâu trawsgwricwlaidd](#)

- Sgiliau trawsgwricwlaidd
- Sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben
- Egwyddorion Cynnydd o fewn y Dyniaethau
- Disgrifiadau dysgu yn y dyniaethau
- Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer CGM
 - CGM a'r pedwar diben
 - CGM a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
 - Cysyniadau CGM
 - Y lens CGM (is-lensys yn CGM)
 - Cynnydd disgyblion a theithiau dysgu yn CGM
 - Cyfoethogi profiad disgyblion mewn CGM
 - Cysylltiadau allweddol â Meysydd eraill
 - Pwyntiau i'w hystyried ar gyfer ysgolion a lleoliadau
- Sicrhau cynhwysiant mewn CGM
- Addysg mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Addysg heblaw yn yr ysgol

Mae ysgolion a lleoliadau Rhondda Cynon Taf yn ategu'r farn, yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, bod y Maes Llafur Cytûn yma ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn adlewyrchu'r canlynol:

- bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn Gristnogol yn bennaf, ond gan gymryd i ystyriaeth ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill sy'n cael eu cynrychioli yng Nghymru.
- bod pobl yn dal ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yng Nghymru. Fel y nodwyd yng Nghanllawiau CGM ar Hwb, mae argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn *“cynnwys credoau fel dyneiddiaeth, anffyddiaeth a seciwlariaeth”* Canllawiau CGM

Dylai ysgolion a lleoliadau Rhondda Cynon Taf hefyd gymryd sylw o'r newidiadau deddfwriaethol canlynol a fydd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion:

- Does dim hawl gan rieni i dynnu eu plant yn ôl o bwnc academaidd CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.
- Rhaid i ysgolion a gynhelir â phlant oed meithrin a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir roi addysg CGM i'w holl ddisgyblion o 3 oed o fis Medi 2022.
- Mae CGM ôl-16 mewn ysgolion a gynhelir yn ddewisol ar gyfer disgyblion chweched dosbarth o fis Medi 2027.

Cynllunio eich Cwricwlwm CGM

[Hwb](#) yw'r man cychwyn ar gyfer unrhyw gynllun cwricwlwm. Bydd unrhyw newidiadau hefyd yn cael eu gwneud yn ganolog ar Hwb, felly rydyn ni'n eich cynghori chi i ddarllen a gwirio'r wybodaeth ar dudalen [Cwricwlwm i Gymru](#) yn rheolaidd.

Bydd angen i bob ysgol a lleoliad benderfynu sut mae CGM yn gweithio orau yn rhan o'u dulliau cyflwyno Maes y Dyniaethau. Er enghraifft, mae modd i gynllun y cwricwlwm fod yn integredig, yn amlddisgyblaethol, yn rhyngddisgyblaethol neu'n ddisgyblaethol. Dylid gwerthuso cynllun y cwricwlwm yn rheolaidd yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Rhaid i bob ysgol a lleoliad hefyd ystyried y Maes Llafur Cytûn lleol yma ar gyfer CGM wrth gynllunio'u cwricwlwm.

Mae'r rhan ar [Faes Dysgu a Phrofiad \(MDPh\) y Dyniaethau](#) hefyd yn hanfodol ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm CGM. Yma fe welwch y meysydd canlynol:

1. Cyflwyniad
2. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (mandadol)
3. Egwyddorion cynnydd (mandadol)
4. Disgrifiadau dysgu
5. Cynllunio eich cwricwlwm

Mae'r adran ar 'gynllunio eich cwricwlwm' yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol a fydd yn ddefnyddiol i chi hefyd:

- Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau annatod
- Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes yma
- Cysylltiadau allweddol â Meysydd eraill
- Themâu trawsbynciol

Rhaid i ysgolion a lleoliadau sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i gyflawni profiad ystyrllon, heriol a diddorol i ddisgyblion gydag CGM. Dydy'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar gyfer CGM ddim yn cynnwys yr amser a'r ddarpariaeth a roddir i Addoli ar y Cyd - maen nhw'n wahanol ac ar wahân. Lle nad yw disgyblion yn dewis astudio CGM ar gyfer cymhwyster allanol yn 14-16 oed, mae'n dal yn ofynnol iddyn nhw gael darpariaeth CGM addas a phriodol, gan mai hyd at 16 oed yw'r gofyniad **mandadol**.

Pwyntiau a Awgrymir i'w Hystyried ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Rhondda Cynon Taf

Rydyn ni'n eich cyngori chi i ddefnyddio'r cwestiynau canlynol wrth [gynllunio'ch cwricwlwm](#) ar gyfer CGM:

- Ydych chi wedi ystyried sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gweithio orau o fewn Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried eich maes llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych chi'n cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn helpu i wireddu'r pedwar diben?
- Ydych chi wedi defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi defnyddio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried amrywiaeth o is-lensys y gellir eu defnyddio i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried cynnydd dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried y 'teithiau dysgu' a ddarparwyd er mwyn eich helpu i ddeall cynnydd mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi myfyrio ar deithiau dysgu posibl eich dysgwyr eich hun er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi gwneud cysylltiadau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r meysydd dysgu a phrofiad eraill?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?

- Ydy'r ffordd rydych chi'n cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn sicrhau dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol?

Yr 'Hawl i Dynnu'n Ôl' o fewn y Cwricwlwm i Gymru

“Does gan rieni ddim hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru.” [Canllawiau CGM](#)
Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn ofyniad statudol i bob disgybl rhwng 3 ac 16 oed. Mae'r amserlen ar gyfer y newidiadau hyn fel a ganlyn:

Disgyblion oed cynradd – Medi 2022

Disgyblion Blwyddyn 7 – Medi 2022 NEU Fedi 2023, yn dibynnu ar pryd bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno yn eu hysgol

Disgyblion Blwyddyn 8 – Medi 2023

Disgyblion Blwyddyn 9 – Medi 2024

Disgyblion Blwyddyn 10 – Medi 2025

Disgyblion Blwyddyn 11 – Medi 2026

Mae hyn yn unol â phob pwnc academaidd arall yn y Cwricwlwm i Gymru.

Sylwch fod modd i rieni barhau i ofyn i'w plant gael eu tynnu'n ôl o '[addoli ar y cyd](#)' o fis Medi 2022, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, gan fod hwn yn wahanol ac ar wahân i bwnc academaidd CGM.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, darllenwch y [crynodeb o ddeddfwriaeth](#) ar gyfer CGM.

Mae yna feysydd eraill yn y [Cwricwlwm i Gymru](#), [Crynodeb o Ddeddfwriaeth CGM](#) a [Chanllawiau CGM](#) a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i ysgolion a lleoliadau ar eu darpariaeth ar gyfer CGM. Dyma rai o'r penawdau:

- **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl 16 oed**
- **Cyfoethogi Profiad y Disgybl mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**
- **Datblygiad Ysbrydol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

- Sicrhau Cynhwysiant mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn Lleoliadau Meithrin a Ariennir Nas Cynhelir
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Deunyddiau Ategol Ychwanegol ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Rhondda Cynon Taf

Bydd Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar gyfer CGM Rhondda Cynon Taf yn parhau i ddarparu deunyddiau ategol, yn ychwanegol at y Maes Llafur Cytûn yma. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac wedi'u cynllunio i roi cymorth parhaus i ymarferwyr. Mae bwriad i'r rhain fod yn ddogfennau, deunyddiau ac adnoddau 'byw' a gweithredol i adlewyrchu esblygiad Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r awdurdod lleol a CYS Rhondda Cynon Taf yn croesawu cyfraniadau ac awgrymiadau ar gyfer y deunyddiau ategol ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd pwyllgorau gwaith yn cael eu sefydlu i gefnogi datblygiad y deunyddiau hyn. Os oes unrhyw ymholiadau gyda chi, cysylltwch â Chlerc y CYS: eirwen.davies@rctcbc.gov.uk



Supporting
Material for the RCT

Manylion Cyswllt

Am ragor o arweiniad ar Faes Llafur Cytûn Rhondda Cynon Taf a'r Cwricwlwm CGM, cysylltwch â:

Donna.graves@cscjes.org.uk